THE ROYAL BRITISH LEGION

COFIO

We are the Dead.
Short days ago
We lived, felt dawn, saw sunset glow,
Loved and were loved, and now we lie
In Flanders' fields.

Allan o 'In Flanders' Fields' by John McCrae

Y pabi

Mae'r pabi, a wisgir gan lawer ohonom bob blwyddyn, yn symbol cyfarwydd. Un o'r ychydig bethau oroesodd y gad yng Ngogledd Ffrainc oedd y pabi a daeth ei wydnwch disglair a siriol yn wyneb y fath erchyllterau obaith i'r milwyr. Ar ôl y Rhyfel, gwerthwyd pabïau papur i helpu'r milwyr clwyfedig a'u teuluoedd. Y Lleng Brydeinig Brenhinol, ceidwad cenedlaethol Cofio, a ddechreuodd y Diwrnod Cofio cyntaf yn 1921.

Heddiw, bydd y Lleng yn gwneud ac yn dosbarthu dros 36 miliwn o babïau yn flynyddol.

Gwisgir y pabi fel symbol i gofio'r rhai a ymladdodd ac a laddwyd mewn croestyniad, yn ogystal â'r rheiny sy'n ymladd ac yn aberthu eu bywydau hyd heddiw. Mae hefyd yn ein hatgoffa i werthfawrogi'r heddwch a'r rhyddid a gawn.

Cofebion

Mae cofebion rhyfel yn bodoli mewn trefi a phentrefi ledled y DG. Codwyd llawer er cof am y dynion a ymladdodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf (1914–1918) ac yn aml ychwanegwyd atynt ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd (1939–1945). Adeiladwyd eraill i goffáu croestyniadau mwy diweddar. Os edrychwch, fe'u gwelwch nhw mewn sgwariau trefi, ar y stryd fawr ac mewn hen ffatrïoedd a mynwentydd. Fel arfer, codwyd y cofebion gan y cymunedau lle bu'r dynion, a fu farw, yn byw ac yn gweithio. Eu pwrpas oedd bod yn goffadwriaeth parhaol o aberth y dynion a'r golled i'r gymdeithas.

Mae'r **Goedfa Goffa Cenedlaethol** yn Swydd Stafford hefyd yn un o ganolbwyntiau Cofio ac mae'n cynnwys llawer math o gofebion i'r rhai oedd mewn croestyniad neu a effeithiwyd ganddo.

Ar furiau'r gofeb hon, mae dros 16,000 o enwau dynion a merched y gwasanaeth milwraidd a laddwyd mewn brwydr ers 1945.

Diwrnod y Cadoediad

Gorffennodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn swyddogol ar yr unfed awr ar ddeg o'r unfed diwrnod ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg, 1918 – Diwrnod y Cadoediad.

Roedd tua naw miliwn o bobl wedi eu lladd. Anafwyd miliynau eraill a distrywiwyd teuluoedd. Roedd nifer o grwpiau yn benderfynol o beidio byth ag anghofio beth ddigwyddodd, nac aberth cynifer. Dechreuodd y weithred o Ddistawrwydd Dau Funud ar ben-blwydd Diwrnod y Cadoediad yn 1919. Yn 1921 ffurfiwyd y Lleng Brydeinig Brenhinol a mabwysiadwyd 'Diwrnod Cofio' fel diwrnod Cofio cenedlaethol. Bydd miliynau o bobl yn rhoi'r gorau i'r hyn maent yn ei wneud i gadw Distawrwydd Dau Funud am 11 y bore ar yr 11eg Tachwedd bob blwyddyn er cof am y rhai a fu farw ymhob croestyniad.